TASG 1 : YSGRIFENNU / PERFFORMIO

Lluniwch a pherfformiwch:

- araith (200-300 o eiriau) yn esbonio pam fod angen gwersi ymarfer corff mewn ysgolion

NEU

- araith fer yn esbonio pam nad oes angen gwersi ymarfer corff yn yr ysgol.

TASG 2 : CREADIGOL / GWAITH GRŴP

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mewn grwpiau, ceisiwch ddyfeisio gêm newydd i'w chwarae yn ystod y gwersi chwaraeon yn yr ysgol. Lluniwch ddeg o reolau neu gyfarwyddiadau syml yn egluro sut mae chwarae'r gêm newydd hon.

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch bennill sy'n dweud rhywbeth am eich hoff beth a'ch cas beth, gan ddilyn yr un patrwm â phennill cyntaf y gerdd 'Chwaraeon', sef:

1 Mae'n gas gen i _____

2 _____.

3 Mae'n well gen i _____

4 _____.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod yn rhiant neu'n warcheidwad. Ysgrifennwch lythyr byr (100-150 o eiriau) i'r athro neu athrawes ymarfer corff yn esbonio pam na all eich mab neu'ch merch gymryd rhan yn y wers chwaraeon heddiw.

TASG 1 : PERFFORMIO

Gwyliwch glipiau o uchafbwyntiau gêmau Cymru yn yr Ewros yn 2016. Mewn parau wedyn, byrfyfyriwch gyfweliad rhwng cyflwynydd teledu ac un o chwaraewyr Cymru.

TASG 2 : TRAFOD / DADANSODDI

a) Darllenwch y gerdd 'Ewro 2016' unwaith eto.

b) Mewn grwpiau dewch o hyd i esiamplau o'r modd y mae'r bardd yn gwrthgyferbynnu gorffennol pêl droed Cymru a phresennol pêl droed Cymru.

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch bennill pedair llinell sy'n cynnwys dim ond enwau trefi a phentrefi yng Nghymru, ynghyd ag ambell gysylltair os oes angen.
Ceisiwch gael y pennill i odli fesul cwpled, e.e.

Plwmp, Machynlleth, Aberteif**i,**
Bethel, Wrecsam a Chaergyb**i**,
Tonypandy, Rhyd-y-m**ain**,
Penybont ac Abergw**aun**.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch eich bod yn aelod o garfan Cymru yn yr Ewros yn 2016 ac ar fin hedfan i Ffrainc.

a) Ysgrifennwch e-bost at eich teulu yn disgrifio eich teimladau cyn mynd (250 o eiriau).

b) Wedyn ysgrifennwch e-bost arall atynt yn disgrifio eich teimladau ar ddiwedd y bencampwriaeth (250 o eiriau).

TASG 1 : DADANSODDI

Mae'r bardd yn treulio 13 o linellau yn disgrifio'r hyn y 'disgwyliem gael' ar ôl y gêm, a dim ond tair llinell yn cyfeirio at yr hyn nad oedd neb wedi disgwyl ei weld.
Ceisiwch ddyfalu pam iddo ysgrifennu cymaint am yr hyn y 'disgwyliem gael'?

TASG 2 : DADANSODDI

Darllenwch y tair llinell olaf unwaith eto. Ydych chi'n credu bod y frawddeg hon yn glo effeithiol i'r gerdd? Pam?

TASG 3 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

a) Ymchwiliwch ar y we i hanes trychineb Hillsborough. Er iddo ddigwydd nôl ym 1989, mae wedi parhau yn bwnc llosg yn y newyddion hyd at yn ddiweddar iawn.

b) Ceisiwch grynhoi'r hanes i ddeg pwynt bwled.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch eich bod yn aelod o dîm pêl droed Lerpwl y diwrnod hwnnw. Ar ddiwedd eich gyrfa rydych yn ysgrifennu eich hunangofiant, ac ynddo, mae pennod gyfan yn adrodd eich profiad chi yn Hillsborough.

Rhowch flas i ni o'r bennod honno (350 o eiriau) yn disgrifio sefyllfa'r prynhawn hwnnw o'ch safbwynt chi.

- Sut oeddech chi'n teimlo cyn y gêm fawr hon?
- Sut oeddech chi'n teimlo pan ddaeth yn amlwg fod rhywbeth wedi mynd o'i le oddi ar y cae?
- Sut newidiodd eich teimladau wrth i'r prynhawn fynd yn ei flaen?

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, trafodwch eich hoff atgof a'ch cas atgof yn ymwneud â chwaraeon yn yr ysgol. Ceisiwch ddwyn i gof y darluniau sy'n aros gennych o'r atgofion hyn, yn ogystal â'r teimladau.

TASG 2 : RHESTRU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dewiswch eich cas bwnc yn yr ysgol. Rhestrwch bump o bethau penodol nad ydych yn eu hoffi am y pwnc hwnnw. Rhestrwch hefyd bump o bethau a allai newid eich agwedd tuag at y pwnc hwnnw.

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Ysgrifennwch bennill am eich profiad chi o ymarfer corff neu chwaraeon yn yr ysgol, gan ddilyn y patrwm sydd isod (sef y patrwm ym mhennill 2). Canolbwyntiwch ar greu darlun gwahanol ymhob llinell. Mae croeso i chi hefyd ddilyn patrwm odli pennill telyn.

1 Llawn yw'r _____ o _____

2 Llawn yw'r _____ o _____.

3 Llawn yw'r _____ o _____,

4 Llawn wyf i o _____.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dychmygwch mai chi yw'r ferch yn y gerdd 'Dydd Iau Chwaraeon'.

Ysgrifennwch ymson (200 o eiriau) yn disgrifio eich teimladau wrth y bwrdd brecwast ar fore dydd Iau chwaraeon yn yr ysgol.

TASG 1 : TRAFOD / DADANSODDI

Mewn parau, rhestrwch yr ymadroddion a'r geiriau yn y gerdd sy'n ymwneud â maint, boed hynny'n faint corfforol neu'n faint gofod a lleoliad, e.e. 'caeau y wlad sy'n culhau'.

TASG 2 : CREADIGOL

Lluniwch frasluniau neu gartŵnau i gyfleu'r trosiadau o Shane Williams yn y gerdd.

TASG 3 : YMCHWILIO / CREADIGOL

a) Chwiliwch ar y we am glip o Shane Williams yn sgorio cais.

b) Paratowch bwt o sylwebaeth i ddisgrifio'r cais hwnnw.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Dewiswch un arall o sêr y campau ac ysgrifennwch bortread creadigol ohono neu ohoni (300 o eiriau).

Canolbwyntiwch ar ddisgrifio ei symudiadau ac osgo wrth iddo/iddi berfformio ei gamp/champ, yn hytrach nag ar ffeithiau moel.

Ceisiwch fod yn ddychmygus iawn, gan gynnwys cymaint o gyffelybiaethau/gymhariaethau a throsiadau ag sy'n bosib.